**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU NEWID SEFYDLIADOL**
**17 GORFFENNAF 2017**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Newid Sefydliadol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug ddydd Llun, 17 Gorffennaf 2017.

**YN BRESENNOL: Cynghorydd David Mackie (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Marion Bateman, Sean Bibby, Geoff Collett, Ian Dunbar, Mared Eastwood, Tudor Jones, Brian Lloyd, Mike Reece, Paul Shotton a David Wisinger

**YMDDIHEURIADAU:** Cynghorwyr Veronica Gay a Ron Hampson

**CYFRANWYR:** Cynghorwyr Billy Mullin, Aelod Cabinet Rheoli Corfforaethol; a Phrif Swyddog (Newid Sefydliadol)

Ar gyfer cofnod rhif 9
Cynghorydd Tudor Jones, Cadeirydd Ymddiriedolwyr Canolfan Hamdden Treffynnon a Mr Chris Travers, Rheolwr Canolfan Hamdden Treffynnon.

Ar gyfer cofnod rhif 10
Steve W Jones, Cyfarwyddwr Rheoli Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau NEWydd a Darren Jones, Cadeirydd y Bwrdd

**ARSYLWYR:** Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog y Pwyllgor

## 6. DATGAN CYSYLLTIAD

Roedd y Cynghorydd Tudor Jones yn datgan cysylltiad personol sy’n rhagfarnu ar eitem 4 ‘Trosglwyddo Ased Cymunedol Canolfan Hamdden Treffynnon’ gan ei fod yn Gadeirydd Ymddiriedolwyr y ganolfan hamdden a landlord y llyfrgell a’r caffi. Roedd hefyd yn llofnodwr y Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer defnyddio cyfleusterau chwaraeon yn Ysgol Treffynnon. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y byddai’r Cynghorydd Jones yn cymryd rhan yn yr eitem fel cyfrannwr ac yn ymateb i unrhyw gwestiynau ond byddai'n gadael yr ystafell ar gyfer y bleidlais. Yna byddai’r Cynghorydd Jones yn cymryd ei le ar y Pwyllgor ar gyfer gweddill yr eitemau ar y rhaglen.

## 7. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2017.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo’r cofnodion fel cofnod cywir a’u llofnodi gan y Cadeirydd.

8. **<u>Deddf Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) 1985 – Ystyried gwahardd y Wasg a'r cyhoedd</u>**

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

Eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem ganlynol gan ei bod yn cael ei hystyried yn wybodaeth wedi'i heithrio yn rhinwedd paragraffau 15 Adran 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

9. **<u>TROSGLWYDDO ASED CYMUNEDOL CANOLFAN HAMDDEN TREFFYNNON</u>**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Newid Sefydliadol) yr adroddiad i ystyried cynnydd Trosglwyddo Ased Cymunedol Canolfan Hamdden Treffynnon yn ystod tri mis cyntaf gweithredu ers trosglwyddo ar 31 Mawrth 2017.

Trosglwyddwyd yr adeilad a gweithwyr ac adleoliwyd y llyfrgell i'r ganolfan hamdden gan mai dyma'r trosglwyddiad ased mwyaf gan y Cyngor. Tynnodd y Prif Swyddog sylw at y dogfennau a oedd ar gael oedd yn dangos y broses gadarn ar ddiwydrwydd cynlluniau busnes hyd at bwynt trosglwyddo. Rhannodd fanylion y gefnogaeth refeniw a ddarparwyd gan y Cyngor ac arian cyfalaf a ddyrannwyd i ddelio gyda materion yn y dyfodol.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Tudor Jones (yn siarad fel Cadeirydd Ymddiriedolwyr y ganolfan hamdden) a Mr Chris Travers (Rheolwr y ganolfan hamdden) i roi eu safbwynt ar y cynnydd a wnaed ers y trosglwyddo.

Diolchodd y Cynghorydd Jones i'r Prif Swyddogion Newid Sefydliadol ac amrywiol adrannau'r Cyngor am eu gwaith i gefnogi'r trosglwyddiad. Rhoddodd drosolwg byr o'i gyfraniad at y prosiect a chanmolodd y Cyngor am ymgysylltu gyda'r cyhoedd yn fuan. Eglurodd bod yr oedi byr cyn trosglwyddo yn angenrheidiol i ddatrys materion a bod y ganolfan hamdden wedi aros yn agored yn ystod y trawsnewid. Soniodd am sefydlu'r Bwrdd Ymddiriedolwyr aml-fedrus i gefnogi datblygiad y cynllun busnes a chanmolodd frwdfrydedd y gweithwyr a gyfrannodd at sefyllfa bresennol y ganolfan hamdden.

Canmolodd y Cynghorydd Ian Dunbar fenter y Cyngor ar Drosglwyddo Ased Cymunedol i helpu'r prosiect a chynnal asedau angenrheidiol ar draws holl ardaloedd y sir. Cytunodd â'r farn mai llif arian a chynllunio busnes oedd y ddau brif ffactor.

Mewn ymateb i ymholiadau gan y Cynghorydd Paul Shotton, cyfeiriodd y Cynghorydd Jones at ddysgu o fodel Trosglwyddo Ased Cymunedol Pwll Nofio Cei Connah. Soniodd am yr ymgysylltu gyda Chynghorau Tref a Chymuned ac y croesawyd y gefnogaeth ariannol a gynigiwyd gan rai ohonynt. Hefyd canmolodd y gymuned am eu hewyllys da i gefnogi'r cyfleusterau fyddai o fudd i'r gymuned ehangach. Aeth ymlaen i roi gwybodaeth am y cae bob tywydd a thelerau'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth.

Fel Rheolwr Canolfan Hamdden Treffynnon, rhoddodd Mr Chris Travers fanylion amrywiol brosiectau cyfalaf ar y gweill a chrynhodd y perfformiad ariannol hyd at 30 Mehefin 2017 a oedd yn dangos sefyllfa gyfforddus.

Soniodd y Prif Swyddog am y buddion ar gael drwy drosglwyddo'r cyfleusterau cymunedol drwy gynnig oriau agor hyblyg a mynediad i arbedion fel rhyddhad trethi. Talodd deyrnged i ymdrechion gweithwyr, y Bwrdd a chydweithwyr Undebau Llafur drwy ddod o hyd i atebion gwaith.

Croesawodd y Cynghorydd Billy Mullin yr agwedd 'gallu gwneud' a ddangoswyd gan bawb oedd yn rhan o'r prosiect.

Gofynnodd y Cynghorydd Mike Reece i'r wybodaeth a anfonwyd at Gynghorau Tref a Chymuned gael ei hanfon at Gyngor Cymuned Bagillt fel y ward gyfagos. Awgrymodd bod y Pwyllgor yn ymweld â Chanolfan Hamdden Treffynnon mewn cyfarfod yn y dyfodol i weld y gwaith a wnaed yno.

Croesawodd y Cynghorydd David Wisinger yr hyn a gyflawnwyd hyd yma a'r syniad o rentu gofod i wneud defnydd llawn o'r adeilad. Ynglŷn â darparu ystafell gyfarfod newydd, awgrymodd y gellid gwneud ymholiadau ynglŷn ag argaeledd dodrefn swyddfa nad oedd yn cael ei ddefnyddio mwyach yn Neuadd y Sir.

Diolchodd y Cadeirydd i'r cyfranwyr am y wybodaeth a rannwyd gyda'r Pwyllgor.

Ar ôl datgan cysylltiad personol a chysylltiad sy'n rhagfarnu yn gynharach, gadawodd y Cynghorydd Jones yr ystafell gyda Mr Travers. Ar ôl cynnal y bleidlais, dychwelodd y Cynghorydd Jones i gymryd rhan fel aelod o'r Pwyllgor ar gyfer gweddill yr eitemau.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r gwaith a wnaed mewn perthynas â Throsglwyddo Ased Cymunedol Canolfan Hamdden Treffynnon ac yn gwerthfawrogi'r gwaith gan swyddogion y Cyngor a Bwrdd a gweithwyr Canolfan Hamdden Treffynnon.

## 10. MODEL CYFLAWNI AMGEN GWASANAETH ARLWYO A GLANHAU NEWYDD

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Newid Sefydliadol) yr adroddiad diweddariad ar ddatblygiad Model Cyflawni Amgen ar gyfer Rheoli Cyfleusterau oedd yn arwain at drosglwyddo Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau NEWydd i Gwmni Masnachu Awdurdod Lleol gyda Teckal Exemption.

Rhoddwyd trosolwg o weithgareddau oedd yn arwain at sefydlu'r cwmni ar 1 Mai 2017. Drwy ddefnyddio Teckal Exemption, roedd y cwmni yn eiddo i'r Cyngor ond roedd yn elwa o allu gweithio i raddau cyfyngedig gydag asiantaethau eraill. Roedd diwydrwydd ar gynllunio busnes cadarn yn rhan o'r broses ac roedd Bwrdd aml-fedrus wedi'i sefydlu gyda chynrychiolwyr yn y gymuned leol. Roedd system ariannol newydd wedi'i fabwysiadu i adlewyrchu'r gwahanol ffordd yr oedd y cwmni'n gweithio.

Gwahoddwyd Mr Steve Jones, Rheolwr Gyfarwyddwr Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau NEWydd a Mr Darren Jones, Cadeirydd y Bwrdd i rannu eu barn ar gynnydd ers trosglwyddo'r cwmni.

Yn ystod eu cyflwyniad, cyfeiriwyd at fudd set sgiliau cyfunol y Bwrdd i helpu i gefnogi datblygiad y cwmni. Roedd yr oedi byr cyn y dyddiad lansio o ganlyniad i'r angen i fynd i'r afael â materion technegol a ddatryswyd drwy gydweithio effeithiol gydag adrannau'r Cyngor. Dywedwyd bod symud y gweithwyr i'r cwmni wedi cynnwys canlyniadau cadarnhaol, ynghyd ag ymatebion gan ddefnyddwyr gwasanaeth y rhan fwyaf wedi eu cadw. Rhoddwyd adroddiad calonogol ar berfformiad ariannol yn erbyn targedau wrth gydnabod yr amcanion tymor hir i ddatblygu busnes a lleihau cymhorthdal. Byddai cynnwys ymgynghorydd i adolygu'r cynllun busnes hefyd yn helpu i nodi cyfleoedd ar gyfer cynnydd a rhoi cyngor ar faterion llywodraethu.

Yn dilyn awgrym gan y Cynghorydd Ian Dunbar, cafwyd trafodaeth ynglŷn â glanhau eiddo gwag.

Gofynnodd y Cynghorydd Paul Shotton am drefniadau gyda phrydau ysgol a dywedwyd am y defnydd o ddulliau marchnata a chefnogaeth ar gyfer dewisiadau iach, tra byddai hyblygrwydd ar fframweithiau caffael yn helpu i fwyhau effeithiolrwydd. Ar effaith posibl y dreth prentisiaeth, roedd y cwmni wedi cael gwybod bod hyn yn rhan o drefniadau'r Cyngor. Ymatebwyd i ymholiadau'r Cynghorydd David Wisinger hefyd ynglŷn ag effeithiau posibl Brexit.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd ar ffigurau a ddangoswyd yn adroddiad y Cabinet o Chwefror 2016, eglurwyd bod llawer o waith wedi'i wneud ar gyllid ers hynny.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r gwaith a wnaed mewn perthynas â throsglwyddo Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau NEWydd i Gwmni Masnachu Awdurdod Lleol gyda Teckal Exemption.

## 11. ADRODDIAD CANLYNIAD CYNLLUN GWELLA 2016/17

Cyflwynodd y Prif Swyddog yr adroddiad diweddariad i ystyried cynnydd ar gyfer cyflawni'r effeithiau yn y Cynllun Gwella 2016/17, gan ganolbwyntio ar y meysydd tan berfformiad sy'n berthnasol i'r Pwyllgor ar ddiwedd y flwyddyn.

Roedd yr adroddiad yn nodi canlyniadau cadarnhaol yn gyffredinol gyda llithriad bach ar y Trosglwyddo Ased Cymunedol a'r Model Cyflawni Amgen fel yr eglurwyd yn gynharach yn y cyfarfod. Nid oedd yr un o'r dangosyddion perfformiad chwarterol na meysydd risg wedi eu nodi'n goch. Dywedodd y Prif Swyddog bod y meysydd yng Nghynllun (Gwella) newydd y Cyngor ar gyfer 2017-23 oedd yn berthnasol i'r Pwyllgor o dan y flaenoriaeth 'Cyngor Cysylltiol'.

Holodd y Cadeirydd am y dyddiadau terfyn a statws cwblhau a ddangoswyd ar ddatblygiad mentrau cymdeithasol a dywedwyd y rhagwelir y byddai hwn yn brosiect tair blynedd.

Yn dilyn cwestiynau gan y Cynghorydd Ian Dunbar, rhoddwyd diweddariad ar gwblhau Trosglwyddo Ased Cymunedol yn ystod y flwyddyn. Ar Gam 4 Neuadd y Sir, hysbyswyd yr Aelodau nad oedd penderfyniad wedi'i wneud ond gwneir mwy o waith dros amser.

**PENDERFYNWYD:**

Bod yr adroddiad canlyniad Cynllun Gwella 2016/17 yn cael ei nodi.

## 12. RHAGLEN WAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y Rhaglen Waith i'r Dyfodol i'w hystyried. Yn dilyn yr awgrym i'r Pwyllgor ymweld â Chanolfan Hamdden Treffynnon, sylwyd na fyddai hyn yn bosibl ar gyfer y cyfarfod nesaf. Byddai opsiynau ar gyfer lleoliad arall yn cael eu hystyried a gwahoddiad i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Iechyd a Gofal Cymdeithasol i fynychu ar gyfer yr eitem ar Fodel Cyflawni Amgen Gofal Cymdeithasol.

Gofynnodd y Cadeirydd am farn ar lefel y manylion yn yr adroddiadau ac yn gyffredinol dywedodd yr Aelodau eu bod yn fodlon gyda'r wybodaeth.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Rhaglen Waith i'r Dyfodol fel y cyflwynwyd, yn cael ei chymeradwyo; a

(b) Bod y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd yn cael amrywio'r Rhaglen Waith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, os bydd angen.

## 13. AELODAU'R CYHOEDD A'R WASG HEFYD YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 12pm)

…………………………

**Cadeirydd**